



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for **Wales**

Hawliau plant yng Nghymru: beth sydd angen i addysgwyr
fod yn ymwybodol ohono?

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant yng Nghymru

Yn 2001, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i sefydlu Comisiynydd Plant.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn swyddfa statudol annibynnol a grëwyd gan y Senedd drwy:

- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001



Annibynnol, ond nid yn gwneud penderfyniadau

Nid yw'r Comisiynydd yn llunio polisi llywodraeth, yn rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus nac yn penderfynu ar anghydfodau cyfreithiol. Yn hytrach, mae'r swyddfa'n defnyddio ei phwerau statudol i:

- Graffu ar benderfyniadau;
- Tynnu sylw at brofiadau plant;
- Adrodd yn gyhoeddus ar faterion sy'n effeithio ar blant;
- Gwneud argymhellion ar gyfer gwella;
- Hyrwyddo atebolrwydd a hawliau plant.



Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Wrth adolygu polisi neu wasanaethau, gofynnwn:

- A yw hawliau plant yn cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni?
- A yw plant a phobl ifanc wedi cael eu clywed?
- A yw rhai grwpiau o blant yn cael eu heffeithio'n anghyfartal?
- Pa newidiadau sydd eu hangen i wella bywydau plant?



Cylch Gwaith Comisiynydd Plant Cymru

Fy rôl i yw gwneud y canloynol:

- Hyrwyddo a diogelu hawliau plant;
- Crynoi lleisiau a phrofiadau plant;
- Cefnogi gwelliant mewn polisi ac ymarfer;
- Dwyn Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyfrif.

Yr hyn y mae fy swyddfa yn ei gynnig:

- Arbenigedd mewn hawliau plant;
- Tystiolaeth gan blant a phobl ifanc;
- Craffu a herio annibynnol.



Pwerau Statudol y Comisiynydd

Archwiliad Achos Ffurfiol	Adolygu Swyddogaethau	Adolygiad o Drefniadau
Archwilio gwaith achos yn ffurfiol lle mae tystiolaeth bod materion o ehangach i blant a phobl ifanc yn codi. Nid y pwrpas yw pennu bai nac atebolrwydd cyfreithiol ond: • Deall beth ddigwyddodd. • Nodi problemau neu fethiannau systemig. • Ystyried y goblygiadau i hawliau a lles plant. • Gwneud argymhellion i atal problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.	Adolygu sut mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig eraill yn arfer eu swyddogaethau ac asesu effaith y swyddogaethau hynny ar blant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys swyddogaethau a arferir gan: • Lywodraeth Cymru • Awdurdodau lleol • Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG • Ysgolion a darparwyr addysg • Cyrff cyhoeddus datganoledig eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar blant a phobl ifanc.	Adolygu trefniadau sy'n ymwneud â: • Cwynion • Eiriolaeth • Datgelu Camymddwyn Mae hyn yn galluogi'r Comisiynydd i asesu a yw systemau a fwriadwyd i amddiffyn a chefnogi plant yn gweithio'n effeithiol yn ymarferol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)


- Mae deddfwriaeth y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddfa ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer ei swyddogaethau.
- Mae'r CCUHP yn darparu'r fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i asesu cyfreithiau, polisïau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.



Erthygl 28

Mae'r CCUHP yn nodi bod yr hawl i addysg yn cynnwys:

- Gwneud addysg gynradd yn orfodol ac ar gael am ddim i bawb;
- Annog datblygiad gwahanol fathau o addysg uwchradd;
- Gwneud addysg uwch yn hygyrch i bawb;
- Gwneud gwybodaeth a chanllawiau addysgol a galwedigaethol ar gael;
- Cymryd camau i annog presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion a lleihau cyfraddau gadael.



Erthygl 29

Mae CCUHP yn nodi bod dylid anelu'r hawl i addysg plentyn at ddatblygu ei botensial llawn a meithrin parch at hawliau dynol, diwylliannau a'r amgylchedd.

Dylai addysg anelu at gyflawni:

- Helpu pob plentyn i gyrraedd ei botensial llawn
- Dysgu parch tuag at hawliau dynol
- Parchu diwylliant a hunaniaeth
- Paratoi plant i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas



Gwireddu Hawliau Plant

Ym mis Mai, cyhoeddais fy ail [Strategaeth Tair Mlynedd 2026-29](#)

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydw i wedi teithio ledled Cymru, gan gwrdd â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion, cymunedau a lleoliadau gofal ar draws pob awdurdod lleol.

Mae barn a phrofiadau plant hefyd wedi cael eu casglu trwy ein gwaith Mater y Mis, yr Arolwg Ffordd Gywir, a dadansoddiad gwaith achos.

Fel swyddfa, rydym yn falch o fod wedi ymgysylltu â **dros 36,000 o blant a phobl ifanc.**



Yr hyn rydyn ni wedi'i glywedd

Mae plant wedi dweud wrthym beth sy'n gweithio, beth sydd ddim, ac yn bwysicaf oll, beth sydd angen newid.

Mae materion allweddol y mae plant wedi bod yn bryderus amdanynt yn gyson yn cynnwys:

- Tlodi a chost byw.
- Iechyd, iechyd meddwl a lles.
- Diogelwch a diogelu.
- Mynediad at addysg.
- Gwahaniaethu a bwlio.



Gwaith achos yn ystod 2025-26

- Roedd materion addysg ac ADY yn cyfrif am 51% o'r holl faterion y gwnaethom eu cefnogi - gan ddangos yr angen am fynediad at gymorth clir, dibynadwy a hygyrch i lywio system sy'n aml yn gymhleth ac yn heriol.
- ADY - Materion lleoli oedd y rhai mwyaf cyffredin, gan gyfrif am 34% o ymholiadau, ac yna materion yn ymwneud â Chynlluniau Datblygu Unigol (27%).
- Addysg - Roedd cwynion yn cyfrif am 30% o faterion, ac yna ceisiadau am gyngor cyffredinol (25%). Fe wnaethom hefyd gefnogi teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc â phryderon ynghylch cludiant ysgol, gwaharddiadau, bwlio, lleoliadau a darpariaeth addysgol.



Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

- Mae achosion sy'n ymwneud â dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i ffurfio cyfran sylweddol a maes cymhleth iawn o'n gwaith achos.
- Mae diffyg eglurdeb ynghylch sut mae cyllid ar gyfer ADY yn cael ei ddyrannu a'i wario ar draws y system.
- Mae'r weithred yn parhau i fod yn anghyson ac nid yw'r system eto'n cyflawni'r gwelliannau mewn profiadau a chanlyniadau a addawyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Yr hyn yr ydym am ei weld

- Profiadau gwell i blant ag ADY, gwell cefnogaeth i deuluoedd sy'n llywio'r system ADY, a system gynaliadwy sydd wedi'i hariannu'n briodol sy'n hyrwyddo cynhwysiant addysgol gwell.
- Mwy o ystyriaeth i gynaliadwyedd a thryloywder cyllid ADY ac a yw'r trefniadau ariannu presennol yn ddigonol i gyflawni'r system ADY fel y bwriadwyd.



Bwlio a gwahaniaethu

Yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

- Mae bwlio a gwahaniaethu yn parhau i effeithio ar lesiant plant.
- Mae plant yn adrodd pryderon ynghylch hiliaeth, camdriniaeth menywod, anabledd, homoffobia, trawsffobia a niwed ar-lein.
- Mae rhai grwpiau o blant yn parhau i wynebu rhwystrau anghymesur i wireddu eu hawlau.

Yr hyn hoffwn ei weld yn digwydd

- Camau cryfach i leihau bwlio gyda mwy o ffocws ar gydraddoldeb, cynhwysiant a pherthyn.
- Cefnogaeth well i blant sy'n wynebu gwahaniaethu a dyletswydd statudol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gofnodi digwyddiadau o fwlio a gwahaniaethu yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.
- Ysgolion a gwasanaethau yn wirioneddol parchu hawlau.



Ymddygiad a phresenoldeb

Yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

- Efallai y bydd rhai dysgwyr yn arddangos ymddygiad heriol mewn ysgolion, o ganlyniad i ansefydlogrwydd teuluol, pwysau economaidd-gymdeithasol, problemau iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol.
- Efallai y bydd dirywiad yn ymddygiad a/neu bresenoldeb rhai dysgwyr o ganlyniad i'r pandemig.

Yr hyn yr ydym am ei weld

- I ymddygiad a diffyg presenoldeb gael eu gweld fel symptom o broblem, ac nid y broblem ei hun.
- Cydnabod ymddygiadau cymhleth fel mater amlochrog gydag ystod o achosion sylfaenol a bod ymddygiad yn fath o gyfathrebu.



Trafnidiaeth

Yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

- “Mae llawer o grwpiau wedi’u hymylu o brofiad trafnidiaeth gyhoeddus cadarnhaol. Mae pobl ifanc niwroamrywiol a phobl ifanc anabl yn wynebu heriau llawer mwy ar dtrafnidiaeth gyhoeddus fel diffyg rampiau, diffyg cerbydau tawel ac ati. Mae chwarter y rhai o leiafrifoedd ethnig yn teimlo’n anniogel ar dtrafnidiaeth gyhoeddus.” - Senedd leuenctid, Adroddiad Ffyrdd Cynaliadwy
- Mae plant yn gorfod cerdded pellteroedd hir i gyrraedd mannau codi, gan gynnwys ar hyd lwybrau cul wrth ochr ffyrdd fawr prysur.

Yr hyn hoffwn ei weld yn digwydd

- Trefniadau trafnidiaeth gwell sy’n galluogi mynediad at ddysgu.
- Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob plentyn a pherson ifanc.




Cyfranogiad a lleisiau plant

Yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

- Er bod gan rai awdurdodau lleol strwythurau cyfranogiad sefydledig, mae eraill yn wynebu heriau o ran sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei ymgorffori'n gyson ar draws gwasanaethau.
- Mae rhai plant a phobl ifanc y clywir eu lleisiau'n llai aml, ac a all wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad, yn cynnwys plant a phobl ifanc Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phlant a phobl ifanc anabl.

Yr hyn hoffwn ei weld

- Strwythurau cyfranogiad cryfach ar lefel genedlaethol a lleol, gan sicrhau bod gan blant a phobl ifanc gyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau.
- Dylai'r adolygiad presennol o lywodraethu ysgolion fod yn uchelgeisiol wrth edrych ar sut y gall trefniadau llywodraethu gefnogi arweinwyr ysgolion yn well, cryfhau atebolrwydd, gwella diogelu a sicrhau bod profiadau a lleisiau dysgwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn gwneud penderfyniadau.



Tîm cyngor a chymorth hawliau plant

Mae tîm cyngor a chymorth hawliau plant yn cynnig llinell gyngor gyfrinachol ac am ddim, a gynigir i blant a phobl ifanc a'r sawl sy'n gofalu amdanynt neu sy'n teimlo bod plentyn wedi cael ei drin yn annheg.

Gallwn helpu plant hyd at 18 oed (neu hyd at 25 mewn rhai amgylchiadau) a allai fod angen cyngor neu gymorth i gael mynediad at unrhyw un o'u hawliau. Gallwn hefyd ddarparu cyngor a chymorth i oedolion sy'n gweithio gyda phlant neu'n gofalu amdanynt.


Manylion cyswllt

Ein horiau agor yw 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc.

Ffôn: 01792 765600

Rhad ffôn : 0808 801 1000

E-bost: advice@childcomwales.org.uk



Unrhyw gwestiynau?

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

post@childcomwales.org.uk



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for **Wales**